Cronfeydd yr UE: Buddsoddi yng Nghymru
EU Funds: Investing in Wales

# Active Inclusion Fund (Priority 1)

## Project Description

The Active Inclusion Funds aim to make a significant contribution to raising levels of employment and reducing economic inactivity in Wales.

Grants will fund engagement activities (Include) and/or paid, structured, supported employment (Achieve) with those furthest from the labour market, in order to give participants new skills and increased confidence that will enable them to become economically active.

Active Inclusion is not specific regarding any service or activity for an Include project or activities. For an Achieve project or activities, Active Inclusion will fund organisations to provide paid supported employment to support and develop people who may have become benefit dependent and to progress them into unsupported employment.

## Geographical Coverage

The project works in all areas throughout Wales

## Essential Eligibility Criteria

Beneficiaries (organisations applying for funding): determined through stage 1 of an online grant application process.

Participants (individuals the projects can help): long term unemployed and economically inactive 25+; and must fit one of the following categories:

- aged 54+ (Economically inactive only)
- BME (Long-term unemployed only)
- Carers (Economically inactive only)
- people from Jobless households
- Low Skills
- Work Limiting Health Condition

## Specific Targets

- Engagement
- Qualifications
- Employment
- Volunteering / supported work placement
- Job search (Economically inactive only)

Each funded project has its own individual targets. Overall the employment target is 18% of those engaged, but approximately 11% for Include activities and 52% for Achieve activities.

## Contact Details

activeinclusion@wcva.cymru

0300 111 0124

https://www.wcva.org.uk/funding/active-inclusion-fund

walescva

@WCVA_AIF

www.youtube.com/user/walescva

www.flickr.com/photos/walescva

# Cronfa Cynhwysiant Gweithredol (Blaenoriaeth 1)

## Disgrifiad o'r Prosiect

Nod y Cronfeydd Cynhwysiant Gweithredol yw gwneud cyfraniad sylweddol at godi lefelau cyflogaeth a lleihau anweithgarwch economaidd yng Nghymru.

Bydd grantiau yn ariannu gweithgareddau ymgysylltu (Cynnwys) a/neu gyflogaeth â chymorth, gyda thâl, ac wedi'i strwythuro, (Cyflawni) ar gyfer y rhai hynny sydd bellaf o'r farchnad lafur, er mwyn darparu sgiliau newydd a mwy o hyder i gyfranogwyr, a fydd yn eu galluogi i fod yn economaidd weithgar.

Nid yw Cynhwysiant Gweithredol yn benodol o ran unrhyw wasanaeth na gweithgarwch ar gyfer prosiect neu weithgareddau Cynnwys. Ar gyfer prosiect neu weithgareddau Cyflawni, bydd Cynhwysiant Gweithredol yn ariannu sefydliadau i gynnig cyflogaeth â chymorth gyda thâl, i gefnogi a datblygu pobl a allai fod yn ddibynnol ar fudd-daliadau, a'u helpu i symud ymlaen i gyflogaeth heb gymorth.

## Cwmpas Daearyddol

Gweithredir y prosiect ym mhob ardal ledled Cymru

## Meini Prawf Cymhwyster Hanfodol

Buddiolwyr (sefydliadau sy'n gwneud cais am gyllid): penderfynir yng ngham 1 proses cais am grant ar-lein.

Cyfranogwyr (unigolion y gall y prosiectau eu helpu): y rhai di-waith yn yr hirdymor ac yn economaidd anweithgar 25+; ac mae'n rhaid iddynt fod mewn un o'r categorïau canlynol:

- 54 oed neu'n hŷn (Anweithgar yn economaidd yn unig)
- Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig (Rhai di-waith yn yr hirdymor yn unig)
- Gofalwyr (Economaidd anweithgar yn unig)
- Pobl o aelwydydd lle nad oes neb mewn gwaith
- Sgiliau isel
- Cyflyrau Iechyd sy'n cyfyngu ar y gallu i weithio

## Targedau Penodol

- Ymgysylltu
- Cymwysterau
- Cyflogaeth
- Gwirfoddoli / lleoliad gwaith â chymorth
- Chwilio am swydd (Rhai economaidd anweithgar yn unig)

Mae gan bob prosiect a ariennir ei dargedau unigol ei hun. Yn gyffredinol, y targed ar gyfer cyflogaeth yw 18% o'r rhai sy'n cymryd rhan, ond oddeutu 11% ar gyfer gweithgareddau Cynnwys a 52% ar gyfer gweithgareddau Cyflawni.

## Manylion Cyswllt


activeinclusion@wcva.cymru

0300 111 0124

https://www.wcva.org.uk/funding/active-inclusion-fund?seq.lang=cy-GB

walescva

@WCVA_AIF

www.youtube.com/user/walescva

www.flickr.com/photos/walescva/